# CYNGOR GWYNEDD

# CYD-ASTUDIAETH ARGAELEDD TIR AR GYFER TAI 2014

**RHWNG ACLI CYNGOR GWYNEDD A'R GRŴP ASTUDIAETH:**

**FFEDERASIWN ADEILADWYR TAI**
**DŴR CYMRU**
**CYFOETH NATURIOL CYMRU**
**HWYLUSYDD TAI GWLEDIG GWYNEDD**
**CYMDEITHAS TAI GOGLEDD CYMRU**
**GRŴP CYNEFIN**

**DYDDIAD CYHOEDDI: MEHEFIN 2015**

**CYNNWYS**

1. Crynodeb

2. Cyflenwad Tir ar gyfer Tai

3. Sylwebaeth

4. Data monitro

Atodiad 1 – Atodlenni Safle

Atodiad 2 – Data Unedau wedi'i Cwblhau yn y Gorffennol

Atodiad 3 – Data Cyflenwad Tir Blaenorol

Atodiad 4 – Argymhelliad yr Arolygydd

## 1.0 CRYNODEB

1.1 Dyma Gyd-Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) Cyngor Gwynedd 2014 sy'n cyflwyno'r cyflenwad tir ar gyfer tai ar gyfer yr ardal ar y dyddiad sail, sef 1 Ebrill 2014. Mae'r adroddiad hwn yn disodli'r adroddiad ar gyfer y dyddiad blaenorol o 2013.

1.2 Paratowyd y JHLAS yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 1 dyddiedig 2006 (Mae NCT 1 diwygiedig wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar, fodd bynnag mae'n ymwneud â phroses JHLAS 2015) a'r Nodyn Canllaw ar y broses JHLAS (Medi 2012). Cyfeiriwch at y dogfennau hyn am fanylion ynghylch y gofynion i gynnal cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai ym mhob ardal Awdurdod Cynllunio Lleol a'r broses o ran ymgymryd â JHLAS.

Nodyn Canllaw – Proses yr Astudiaeth ar y Cyd ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai:

http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/120919jhlasguidancenoteen.pdf

1.3 Amlinellir manylion y cyflenwad o dir ar gyfer tai a sut y'i cyfrifwyd yn adran 2. Yn seiliedig ar y dull gweddilliol a nodir yn NCT 1, dengys bod gan Gyngor Gwynedd gyflenwad **3.7 mlynedd**[1] o dir ar gyfer tai.

### Cyswllt

1.4 Aseswyd y cyflenwad o dir ar gyfer tai mewn ymgynghoriad â:

- Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (HBF)
- Dŵr Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd
- Cymdeithas Tai Gogledd Cymru
- Grŵp Cynefin

### Cynhyrchu adroddiad

1.5 Cyhoeddodd Cyngor Gwynedd atodlenni safleoedd a profformâu safleoedd ar gyfer yr astudiaeth JHLAS 2014 ar gyfer ymgynghoriad rhwng 27ain Tachwedd a 19eg Rhagfyr 2014. Roedd materion cynhennus rhwng Cyngor Gwynedd a HBF yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol mewn perthynas â rhai o'r manylion a nodwyd yn yr atodlen safleoedd. Yn dilyn hynny, paratowyd Datganiad Tir

[1] Tra bod argymhelliad yr Arolygydd Cynllunio yn awgrymu cyflenwad tir o 3.6 mlynedd, mae'r wybodaeth a nodir yn rhan 2 o'r Adroddiad hwn yn nodi cyflenwad tir sydd yn 3.7 mlynedd (gweler paragraffau 1.6 a 1.7 yn ogystal).

Cyffredin (DTC) yn nodi'r safleoedd cynhennus ac fe'i cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad rhwng 11eg Mawrth a 26ain Mawrth 2015. Yn dilyn hynny, paratowyd Datganiad Tir Cyffredin (DTC) terfynol ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 27ain Mawrth, 2015.

1.6 Roedd hi'n angenrheidiol i Arolygydd Cynllunio penodedig ddatrys nifer o faterion cynhennus oherwydd na lwyddodd pob parti i gytuno ar y manylion o fewn yr atodlen safle yn ystod cyfnod y DTC.

1.7 Yn dilyn hynny, gwnaeth yr Arolygydd Cynllunio a benodwyd argymhelliad i Lywodraeth Cymru ynghylch cyflenwad tir ar gyfer tai (Atodiad 4) gan gynnwys argymhellion ar y materion cynhennus. Ystyriwyd a derbyniwyd argymhellion yr Arolygydd Cynllunio gan Lywodraeth Cymru, gwnaethpwyd diwygiad perthnasol i'r atodlenni safle gan Gyngor Gwynedd ac mae'r wybodaeth hyn wedi ei ymgorffori i'r adroddiad hwn.

## 2.0 Y CYFLENWAD TIR AR GYFER TAI

2.1 Mae'r cyflenwad tir pum mlynedd yn cynnwys safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio (amlinellol neu lawn) a safleoedd sydd wedi'i dynodi ar gyfer tai mewn cynlluniau datblygu a fabwysiadwyd, wedi'i categoreiddio fel y nodir yn NCT 1.

2.2 Mae'r cyflenwad tir wedi cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r fethodoleg weddilliol, yn seiliedig ar Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDUG) 2001-16 a fabwysiadwyd ar 16eg Gorffennaf, 2009.

## Tabl 1 – Cyflenwad Tir ar gyfer Tai sydd wedi'i nodi[2]

| Cyflenwad Tir ar gyfer Tai 1 Ebrill 2014 - 2019 – Safleoedd Mawr (safleoedd gyda 5 neu fwy o unedau tai) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyflenwad Tir 5 Mlynedd (Categorïau NCT 1) | | | | Ymhellach na 5 Mlynedd | | |
| | Cartrefi arfaethedig | Wrthi yn cael eu hadeiladu | **1** | **2** | **2*** | **3(i)** | **3(ii)** | Cartrefi wedi'u cwblhau ers yr astudiaeth ddiwethaf |
| **Cyfanswm** | 2430 | 181 | 121 | 1233 | 0 | 880 | 15 | 111 |

2.3 Dadansoddiad o'r cyflenwad tir pum mlynedd (h.y. Categorïau 1, 2, 2* ac Wrthi yn cael eu hadeiladu):

| | |
|---|---|
| Preifat | 1396 |
| Cyhoeddus | 85 |
| Cymdeithasau Tai | 54 |
| **Cyfanswm** | 1535 |

2.4 **Cyflenwad Safleoedd Bychan** – mae'r cyfraniad o safleoedd bach o lai na 5 o dai yn seiliedig ar y tai a gwblhawyd yn y pum mlynedd diwethaf.

## Tabl 2 – Safleoedd Bychan a Gwblhawyd dros y 5 mlynedd flaenorol

| 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 | 2013-2014 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| 72 | 66 | 74 | 79 | 65 | 356 |

[2] Mae safleoedd wedi eu categoreiddio fel y ganlyn:

**Safleoedd sydd wrthi yn cael eu hadeiladu:** Safleoedd neu rannau o safleoedd sydd wrthi'n cael eu hadeiladu (yn cyfeirio at yr union ardal lle mae'r adeiladu'n digwydd yn unig);
**Categori 1:** Safleoedd neu rannau o safleoedd lle gellir dechrau datblygu ar unwaith, ac sy'n debygol o gael eu cwblhau ym mlwyddyn gyntaf cyfnod yr astudiaeth;
**Categori 2:** Safleoedd neu rannau o safleoedd lle na ellir dechrau datblygu ar unwaith, ond lle mae cyfyngiad ar ddatblygu yn debygol o gael ei godi mewn pryd i gwblhau'r anheddau o fewn 5 mlynedd;
**Categori 2*:** Safleoedd sy'n gallu cael eu datblygu o fewn y cyfnod o 5 mlynedd ond sydd o fewn yr ardaloedd lle mae'r galw yn y farchnad yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd y datblygiad yn digwydd o fewn 5 mlynedd;
**Categori 3:** Safleoedd neu rannau o safleoedd lle mae:
3i. datblygiad yn annhebygol o fewn 5 mlynedd oherwydd cyfyngiadau ffisegol mawr neu gyfyngiadau eraill y cytunwyd arnynt gan y Grŵp; neu
3ii. Datblygiad yn annhebygol o ddigwydd yn y dyfodol agos oherwydd cyfyngiadau mawr tymor hir.

2.5 **Cyfanswm y cyflenwad tir 5 mlynedd** (safleoedd mawr a bychan) yw **1891** (1535 + 356).

**Tabl 3 – Cyfrifiad y Cyflenwad Tir 5 Mlynedd (Dull Gweddilliol)**

| | | |
|---|---|---|
| A | Cyfanswm yr Angen am Dai (fel yr amlinellir yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd a fabwysiadwyd) | 4178 |
| B | Yr hyn a gwblhawyd ers y dyddiad cychwyn (safleoedd mawr a bychan) | 2432 |
| C | Angen Gweddilliol | 1746 |
| D | Angen dros 5 mlynedd | 2583[3] |
| E | Angen Blynyddol | 517 |
| F | Cyfanswm y Cyflenwad Tir 5 Mlynedd | 1891 |
| **G** | **Y Cyflenwad Tir mewn Blynyddoedd (F / E)** | **3.7** |

## 3.0 SYLWEBAETH

3.1 O ystyried bod Tabl 3 yn nodi cyflenwad tir sy'n llai na 5 mlynedd, mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi'r camau y bwriedir eu dilyn i ymdrin â'r diffyg hwn.

3.2 Tra bod y Cyngor yn cydnabod y dylai'r dull gweddilliol barhau fel y prif ddull o gyfrifo'r cyflenwad tir, ystyrir y dylid cynnwys ffigyrau cyfraddau adeiladu'r gorffennol hefyd yn yr astudiaeth er dibenion cymharu. Dengys dull cyfraddau adeiladu'r gorffennol ffigwr sylweddol uwch o gyflenwad tir (sydd hefyd yn sylweddol uwch na chyflenwad tir 5 mlynedd).


[3] Y dull o sefydlu'r angen dros 5 mlynedd ar gyfer cyfnod yr astudiaeth:

- Angen am Dai CDU 2001-2016 = 4178 annedd
- Llai'r tai a gwblhawyd rhwng 2001 a 2014 = 2432 annedd
- Yn rhoi'r Gofyn Gweddilliol rhwng 2014 a 2016 = 1746 annedd.
- Wrth i gyfnod yr astudiaeth ymestyn i 2019, ychwanegir angen tair blynedd arall yn seiliedig ar yr angen blynyddol am dai o fewn y CDU: 4178 ÷ 15 = 279 annedd
- Cyfanswm am yr angen am y pum mlynedd 2014-2018 yw 1746 + 837 (3x279) = **2583 annedd**

**Tabl 4 - Cyfrifiad y Cyflenwad Tir 5 Mlynedd (Dull Cyfraddau Adeiladu'r Gorffennol)**

| | | |
|---|---|---|
| **A** | Cyfanswm y Tai a Gwblhawyd dros y 10 Mlynedd Flaenorol (1/4/04 – 31/3/14) | 1868 |
| **B** | Nifer y Tai a Gwblhawyd yn Flynyddol ar Gyfartaledd | 187 |
| **C** | Cyfanswm y Cyflenwad Tir 5 Mlynedd | 1891 |
| **D** | **Y Cyflenwad Tir mewn Blynyddoedd (C / B)** | **10.1** |

3.3 Tra bod y cyflenwad o dir ar gyfer tai yn Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) Gwynedd, yn seiliedig ar y dull gweddilliol, yn llai na 5 mlynedd, ni chreda'r ACLI bod prinder tir ar gyfer tai. Mae'r angen gweddilliol blynyddol am dai ar gyfer gweddill cyfnod y CDU yn afrealistig o uchel o'i gymharu â'r cyfraddau cwblhau blynyddol dros y deng mlynedd ddiwethaf. Dengys y siart isod sut mae'r gwir ddarpariaeth gronnus o dai newydd ers dyddiad sail y Cynllun Datblygu Unedol yn cysylltu â anghenion tai'r Cynllun.




3.4 Mae'n amlwg o'r siart nad yw cyfraddau adeiladu wedi codi gyfuwch â'r gyfradd ddisgwyliedig o ddatblygu. Mae'r unedau a'u cwblhawyd wedi gostwng hyd yn oed ymhellach oddi wrth gofynion y CDUG dros y blynyddoedd diwethaf. O gofio bod y CDU wedi'i fabwysiadu yn 2009, mae'n amlwg, yn nhyb yr ACLI, bod y dirywiad yn yr economi wedi effeithio ar y diwydiant adeiladu tai a'r gyfradd adeiladu blynyddol.

3.5 O ganlyniad, er mwyn cyflawni cyflenwad pum mlynedd yn seiliedig ar y dull gweddilliol o gymharu, byddai angen i'r ACLI allu cyflawni cyfradd adeiladu blynyddol dros y pum mlynedd nesaf o 517 uned y flwyddyn. Mae hyn yn bell dros ddwywaith gymaint â'r gwir gyfradd cwblhau blynyddol cyfartalog am y deng mlynedd diwethaf (187 uned y flwyddyn) ac mae'n gyfradd adeiladu blynyddol nas cyflawnwyd erioed ers i'r Cyngor ddod i fodolaeth.

3.6 Dylid nodi hefyd os byddai'r ffigwr angen blynyddol a nodir yn y CDU (h.y. 279 uned y flwyddyn) wedi'i ddefnyddio er cymhariaeth yn yr Astudiaeth, byddai'r ffigwr am y cyflenwad tir yn uwch na phum mlynedd (1891 / 279 = 6.8 mlynedd).

3.7 Mae yna ffactorau, o'u hystyried gyda'i gilydd, sydd wedi arwain at nifer cymharol uchel o unedau tai yn cael eu cynnwys fel unedau categori 3(i). Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys:

- *Materion economaidd* – Argaeledd morgeisi (ar gyfer eiddo ar y farchnad ac eiddo sydd â chydberchnogaeth), gallu prynwyr tai tro cyntaf i fforddio blaendaliadau ac amharodrwydd banciau i ariannu datblygiadau.
- *Math o ddatblygiad* – Mae'r canfyddiad cyffredinol bod yna orgyflenwad o fflatiau a bod llety o'r fath yn annhebygol o ddod yn eu blaen yn y tymor byr, er bod rhai eithriadau wedi'u hadnabod.
- *Materion isadeiledd* – Methiant rhai darparwyr isadeiledd i ddatrys materion capasiti sy'n effeithio ar argaeledd tymor byr tir ar gyfer tai. Byddai rhoi pwysau ar y darparwyr hyn i ddatrys y problemau yma yn dod â nifer fawr o unedau yn ôl i'r cyflenwad tir 5 mlynedd.

3.8 O gofio bod y CDU wedi ei fabwysiadu yn 2009, mae'r dirywiad yn yr economi wedi effeithio ar ddatblygiad safleoedd tai dynodedig. Os byddai'r CDU wedi ei fabwysiadu ynghynt (h.y. ynghynt yn oes y Cynllun), mae'n fwy tebygol y byddai nifer o'r safleoedd hyn wedi eu datblygu. Byddai hyn wedi cynyddu'r gyfradd adeiladu a lleihau'r angen gweddilliol ar gyfer gweddill oes y Cynllun.

3.9 Fel arfer, cyflwynir ceisiadau ar gyfer safleoedd ar hap bob blwyddyn a fydd yn ychwanegu safleoedd heb eu hadnabod yn flaenorol at y cyflenwad. Bydd y Cyngor hefyd yn parhau i gadw mewn cysylltiad gyda pherchnogion a datblygwyr safleoedd wedi'u hadnabod i sicrhau bod rhagolygon cwblhau'r gwaith, ynghyd â'r modd mae safleoedd wedi'i categoreiddio, mor ystyrlon â phosib.

3.10 Mae'r Cyngor yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd a fydd yn cynnwys dynodiadau tai ychwanegol er mwyn cwrdd â'r galw. Fe gafodd y Cynllun ei roi ar Adnau yn Gyhoeddus yn ystod Chwefror a Mawrth 2015. Mae'r Cynllun

Adnau yn yn nodi angen ar gyfer 272 o dai y flwyddyn ar gyfer ardal ACLI Gwynedd. Y bwriad yw mabwysiadu'r Cynllun erbyn diwedd 2016 a barn y Cyngor yw y dylai hwn fod y cyfrwng i gynyddu'r cyflenwad tir sydd ar gael (gan ei fod wedi ei seilio ar asesiad AC / AAS) yn hytrach na datblygiad hapfasnachol sydd yn groes i strategaeth y cynllun.

## 4.0 DATA MONITRO

4.1 Mae NCT 1 yn ei wneud yn ofynnol i'r adroddiad JHLAS ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar ddatblygiad tir ar gyfer tai gan ymdrin â defnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen, defnyddio safleoedd sy'n agored i gyfyngiadau risg llifogydd ynghyd a'r math o dai a ddatblygir (h.y. tai, fflatiau, eraill). Gweler y data isod.

**Tabl 5 – Ailddefnyddio Tir a Ddatblygwyd o'r blaen (safleoedd mawr)**

| **Nifer a chanran y cartrefi yn ôl categori a math o dir** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Cyflenwad 5 mlynedd | | | | Categorïau 3i a 3ii | | | | **Unedau a gwblhawyd 2013-14** | | | |
| | Tir Glas | | Tir Llwyd | | Tir Glas | | Tir Llwyd | | Tir Glas | | Tir Llwyd | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| 2011 | 1182 | 68 | 552 | 32 | 757 | 79 | 197 | 21 | 77 | 80 | 19 | 20 |
| 2012 | 1111 | 62 | 694 | 38 | 652 | 74 | 225 | 26 | 27 | 57 | 20 | 43 |
| 2013 | 1369 | 76 | 443 | 24 | 723 | 85 | 126 | 15 | 46 | 50 | 46 | 50 |
| 2014 | 1066 | 69 | 469 | 31 | 705 | 79 | 190 | 21 | 63 | 57 | 48 | 43 |
| 2015 | | | | | | | | | | | | |
| 2016 | | | | | | | | | | | | |

**Tabl 6 – Safleoedd sy'n destun cyfyngiadau risg llifogydd (safleoedd mawr)**

| **Nifer a chanran y cartrefi yn ôl categori a math y tir** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Cyflenwad 5 mlynedd | | | | Categorïau 3i a 3 ii | | | | **Unedau a gwblhawyd 2013-14** | | | |
| | C1 | | C2 | | C1 | | C2 | | C1 | | C2 | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| 2011 | 52 | 3 | 29 | 2 | 26 | 3 | 52 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2012 | 77 | 4 | 3 | 0.2 | 6 | 0.7 | 27 | 3 | 2 | 4 | 0 | 0 |
| 2013 | 72 | 4 | 103 | 6 | 63 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 2014 | 74 | 5 | 0 | 0 | 39 | 4 | 27 | 3 | 12 | 11 | 1 | 1 |
| 2015 | | | | | | | | | | | | |
| 2016 | | | | | | | | | | | | |

**Tabl 7 – Tai a Gwblhawyd yn ôl Math o Dŷ – 1 Ebrill 2013 hyd at 31 Mawrth 2014**

- 140 (79.5%) o dai wedi'u cwblhau
- 17 (9.7%) o fflatiau wedi'u cwblhau
- 19 (10.8%) eraill (e.e. byngalos) wedi'u cwblhau

## Atodiad 1 – Atodlenni Safle

## ATODIAD 1 / APPENDIX 1

### Safleoedd Sector Preifat / Private Sector Sites

| RHIF NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI LPA REF NO | CYFEIRIAD ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol Units Rmng | He sydd ar ol Ha Rmng | W/D U/C | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS STATUS | BF GF | FLOOD ZONE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Abermaw (00)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1 | 651 | C11/0147/00/LL | TIR GER / LAND NEAR ORIELTON, FFORDD PANORAMA ROAD ( SWN Y DAIL ) | 1 | 25 | 15 | 1.2 | 0 | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 4 | 0 | L | BF | NO |
| 2 | 743 | 5/51/137 | PROMENADE | 0 | 26 | 26 | 1.54 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 26 | 0 | L | GF | C1 |
| 4 | 2488 | C07M/0203/00/LL | CYN DEPO RHEILFFORDD / FORMER RAIL DEPOT, MARINE ROAD | 0 | 7 | 7 | 0.08 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | 0 | L | BF | NO |
| **Arthog (04)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5 | 1669 | C04M/0072/01/LL | LLEINIAU / PLOTS 15-23 HEOL SEITHENDRE, FAIRBOURNE | 0 | 9 | 5 | 0.29 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | L | GF | C1 |
| **Bangor (11)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6 | 4 | 3/11/722B | 30 - 32 FFORDD / HOLYHEAD ROAD | 0 | 8 | 8 | 0.09 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 0 | L | BF | NO |
| 7 | 1192 | C03A/0717/11/LL | POPLARS 27/ 29 FFORDD Y COLEG / COLLEGE ROAD | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | C | BF | NO |
| 8 | 1359 | GWYN UDP | PEN Y FRIDD | 0 | 330 | 330 | 11 | 0 | 0 | 0 | 35 | 35 | 35 | 0 | 225 | 0 | L | BF 22.7% GF 77.3% | NO |
| 9 | 1932 | C06A/0089/11/LL | NEUADD DEINIOL A WAYSIDE, FFORDD CAERGYBI HOLYHEAD ROAD | 0 | 24 | 24 | 0.11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 24 | 0 | L | BF | NO |
| 12 | 2774 | C11/0112/11/LL | HAFOD ELFYN A BRYN ADDA | 9 | 42 | 9 | 0.16 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | L | BF | NO |
| 14 | 2364 | C08A/0108/11/LL | BANGOR CITY SOCIAL CLUB, FFORDD DEINIOL ROAD | 0 | 49 | 49 | 0.19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 49 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| 16 | 2462 | C08A/0626/11/LL | ELIAS GARAGE, 347 STRYD FAWR / HIGH STREET | 0 | 12 | 12 | 0.04 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 12 | 0 | L | BF | NO |
| 125 | 3672 | C12/1504/11/LL | 147-149 STRYD FAWR / HIGH STREET | 0 | 11 | 11 | 0 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| 17 | 2754 | C09A/0410/11/LL | DICKES BOAT YARD,FFORDD GARTH ROAD | 19 | 72 | 31 | 0.2 | 18 | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| 133 | 3867 | C13/0049/11/LL | 346-350 STRYD FAWR / HIGH STREET | 0 | 7 | 7 | 0 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N | BF | NO |

| RHIF<br>NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI<br>LPA REF NO | CYFEIRIAD<br>ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf<br>Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau<br>Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol<br>Units Rmng | He sydd ar ol<br>Ha Rmng | W/D<br>U/C | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS<br>STATUS | BF<br>GF | FLOOD<br>ZONE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bethesda (13) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 18 | 24 | 3/13/130A | O.S 8361,8958,8650, BRYN CASEG | 0 | 22 | 1 | 0.1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 126 | 3598 | C10A/0206/13/AM | GRAY GARAGE, LON NEWYDD | 0 | 8 | 8 | 0.28 | 0 | 4 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| 19 | 1365 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR MAES COETMOR | 0 | 60 | 60 | 2 | 0 | 0 | 0 | 10 | 20 | 20 | 0 | 10 | 0 | L | GF | NO |
| Bontnewydd (19) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 20 | 2478 | C08A/0287/19/LL | LLAIN O DIR I FFWRDD O LON / PLOT OF LAND OFF LON CEFNWERTHYD | 0 | 26 | 26 | 0.87 | 0 | 0 | 8 | 9 | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| Botwnnog (32) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 21 | 1330 | C02D/0322/32/LL | TIR GER / LAND ADJ TO B4413 | 0 | 5 | 1 | 0.01 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | L | GF | NO |
| Caernarfon (14) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 22 | 1371 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR GLAN PERIS | 0 | 114 | 114 | 4 | 0 | 0 | 0 | 22 | 20 | 20 | 0 | 52 | 0 | L | GF | NO |
| 23 | 1732 | C09A/0411/14/LL | TIR GER MYNWENT LLANPEBLIG / LAND NEAR LLANPEBLIG CEMETERY | 4 | 136 | 132 | 3.95 | 9 | 0 | 0 | 0 | 20 | 20 | 0 | 83 | 0 | L | GF | NO |
| 26 | 2498 | C09A/0108/14/LL | 1, STRYD Y FARCHNAD | 0 | 6 | 6 | 0.02 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| Clynnog (34) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 28 | 1376 | GWYN UDP | TIR AR / LAND AT TAI LLEUAR, PONTLLYFNI | 0 | 6 | 6 | 0.3 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| Criccieth (35) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 29 | 224 | 2/5/143A | YSTAD GORSEDDFA ESTATE | 0 | 13 | 1 | 0.1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | L | GF | NO |
| 30 | 225 | 2/15/264B | YSTAD WERN Y WYLAN ESTATE | 0 | 9 | 1 | 0.1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 31 | 2205 | GWYN UDP | GER / NEAR NORTH TERRACE | 0 | 35 | 35 | 1 | 0 | 0 | 0 | 10 | 12 | 13 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 33 | 2528 | C08D/0478/35/AM - C13//0028/35/AM | TIR GER / LAND NEAR GWESTY GEORGE IV HOTEL, STRYD FAWR/HIGH STREET | 0 | 37 | 37 | 0.41 | 0 | 0 | 0 | 20 | 17 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| 134 | 2436 | C12/0476/35/AM | TIR YN NGHEFN / LAND TO THE REAR OF STATION BAKERY, STRYD FAWR / HIGH STREET | 0 | 7 | 7 | 0.07 | 0 | 0 | 0 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N | BF | NO |

| RHIF<br>NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI<br>LPA REF NO | CYFEIRIAD<br>ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf<br>Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau<br>Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol<br>Units Rmng | He sydd ar ol<br>Ha Rmng | W/D<br>U/C | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS<br>STATUS | BF<br>GF | FLOOD<br>ZONE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dolbenmaen (36) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 34 | 228 | C10D/0162/36/LL | CAE / FIELD 6775 (HENDREGADREDD), PENTREFELIN | 0 | 6 | 1 | 0.01 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| Ffestiniog (03) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 35 | 1966 | GWYN UDP | GWYLFA GARAGE, FFORDD MANOD ROAD,BLAENAU FFESTINIOG | 0 | 5 | 5 | 0.1 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| 36 | 2206 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR CAE CLYD, BLAENAU FFESTINIOG | 0 | 17 | 17 | 1 | 0 | 0 | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 | 12 | 0 | L | GF | NO |
| Llanaelhaearn (37) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 37 | 2402 | C10D/0388/37/MG | RHAN O CAE 5993 / PART OF LAND 5933 GER/NEAR LLWYNAETHREN, TREFOR | 1 | 6 | 2 | 0.02 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| Llanberis (15) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 38 | 2790 | C11/1103/15/AM | TIR GER / LAND NEAR TY DU ROAD | 0 | 11 | 11 | 0.69 | 0 | 0 | 5 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| 39 | 1374 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR GWESTY VICTORIA HOTEL | 0 | 15 | 15 | 1 | 0 | 0 | 0 | 7 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| Llanddeiniolen (18) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 40 | 1387 | GWYN UDP | BRO EGLWYS, SARON, BETHEL | 0 | 24 | 24 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 24 | 0 | L | GF | NO |
| 41 | 1381 | GWYN UDP | TIR GER YR YSGOL GYNRADD / LAND NEAR PRIMARY SCHOOL, DEINIOLEN | 0 | 30 | 30 | 1 | 0 | 0 | 5 | 5 | 5 | 0 | 0 | 15 | 0 | L | GF | NO |
| 42 | 1382 | GWYN UDP | CAPEL MAES Y DREF CHAPEL, DEINIOLEN | 0 | 12 | 12 | 0.7 | 0 | 0 | 0 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 43 | 76 | 3/18/202J | TIR TU CEFN I / LAND TO THE REAR OF BRO EGLWYS, BETHEL | 0 | 50 | 14 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 14 | 0 | L | GF | NO |
| Llandwrog (17) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 47 | 2502 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR BRYN LLAN (C09A/0245/17/AM) | 0 | 9 | 9 | 1 | 0 | 0 | 2 | 3 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| Llandygai (16) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 48 | 2204 | C09A/0518/16/AM | GER / NEAR PENTWMPATH | 0 | 15 | 15 | 0.63 | 0 | 0 | 0 | 5 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 135 | 3807 | C11/1077/16/LL | PLAS-Y-COED | 0 | 29 | 29 | 6.7 | 0 | 12 | 17 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N | BF | NO |

| RHIF / NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI / LPA REF NO | CYFEIRIAD / ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf / Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau / Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol / Units Rmng | He sydd ar ol / Ha Rmng | W/D / U/C | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS / STATUS | BF / GF | FLOOD / ZONE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llanengan (39)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 49 | 240 | C05D/0220/39/LL – 9403207FL | TIR GER / LAND NEAR BRYN HEDD, MYNYTHO | 0 | 6 | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 50 | 2428 | C09D/0288/39/MG C08D/0112/39/AM | RHAN O CAE 3910 GER EGLWYS ST ENGAN / PART OF FIELD 3910 NEAR ST | 0 | 6 | 6 | 0.25 | 1 | 2 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 51 | 2497 | C08D/0436/39/LL | ABERSOCH POWER BOAT CLUB,ABERSOCH | 0 | 9 | 9 | 0 | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| 136 | 3825 | C12/0441/39/LL | RIVERSIDE HOTEL & RESTAURANT SITE, ABERSOCH | 0 | 15 | 15 | 0.12 | 0 | 0 | 5 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | N | BF | C1 |
| **Llanllechid (21)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 52 | 2477 | C10A/0040/21/MG C09A/0067/13/AM C11/0847/21/MG | LLAIN O DIR CYFAGOS I / PLOT OF LAND NEAR BRON ARFON (LLWYN BEDW) | 1 | 13 | 6 | 0.17 | 1 | 2 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| **Llanllyfni (22)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 53 | 1379 | GWYN UDP | TIR GER CAE PELDROED / LAND NEAR FOOTBALL GROUND, PENYGROES | 0 | 104 | 104 | 3.1 | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 | 0 | 0 | 84 | 0 | L | GF | NO |
| 54 | 1380 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR BRO LLWYDU, PENYGROES | 0 | 12 | 12 | 0.2 | 0 | 0 | 0 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 55 | 1386 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR HEN DOMEN,TALYSARN | 0 | 36 | 36 | 1 | 0 | 0 | 0 | 5 | 5 | 0 | 0 | 26 | 0 | L | BF | NO |
| 56 | 2211 | C12/1123/22/LL | TU CEFN / BEHIND CAE CAPEL BACH, | 3 | 6 | 3 | 0.08 | 1 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| **Llannor (40)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 57 | 2214 | C08D/0257/40/AM | TIR GER / LAND NEAR STAD DDIWYDIANOL, Y FFOR | 0 | 9 | 9 | 0.5 | 0 | 0 | 5 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 58 | 2250 | GWYN UDP | GER / NEAR TY GWYN, ABERERCH | 0 | 9 | 9 | 0.5 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 59 | 2251 | GWYN UDP | GER / NEAR HAFOD LON, Y FFOR | 0 | 44 | 44 | 1.2 | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 | 0 | 0 | 24 | 0 | L | GF | NO |
| **Llanrug (23)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 60 | 144 | C98A/0125/23/LL – 3/23/265B-Q | YSTAD NANT Y GLYN ESTATE | 0 | 54 | 4 | 0.1 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 61 | 1222 | C05A/0051/23/LL – C01A/0560/23/AM | LLAIN O DIR TY CAPEL / LAND AT TY CAPEL, CWM Y GLO | 0 | 6 | 6 | 0.3 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 62 | 1385 | GWYN UDP | TIR GYFERBYN / LAND OPPOSITE TREFLAN | 0 | 6 | 6 | 1 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | L | GF | NO |
| 63 | 2216 | C08A/0122/23/LL C06A/0114/23/AM | CEIR CWM, CWM Y GLO | 0 | 8 | 8 | 1 | 0 | 3 | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| 127 | 3602 | C12/0891/23/LL | CAE'R EGLWYS FFORDD LLANBERIS ROAD | 0 | 10 | 10 | 0.39 | 0 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |

| RHIF NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI LPA REF NO | CYFEIRIAD ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol Units Rmng | He sydd ar ol Ha Rmng | W/D U/C | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS STATUS | BF GF | FLOOD ZONE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 128 | 2567 | C09A/0361/23/AM | LLAIN O DIR CYFAGOS I / PLOT OF LAND NEAR PARC ISAF | 0 | 6 | 6 | 0.19 | 0 | 0 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 64 | 2374 | C09A/0026/23/MG C08A/0398/23/AM C12/1277/23/LL | PEN CAE, FFORDD LLANBERIS ROAD | 2 | 13 | 6 | 0.14 | 0 | 4 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| **Llanwnda (24)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 66 | 772 | C10A/0426/24/LL | TIR GER / LAND ADJ TO BODAWEN, RHOSTRYFAN | 0 | 18 | 16 | 0.31 | 5 | 4 | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 67 | 1395 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR GWELFOR, RHOSGADFAN | 0 | 14 | 14 | 1 | 0 | 0 | 0 | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 68 | 2114 | C09A/0532/24/LL - C08A/0568/24/LL | LLAIN O DIR I FFWRDD O A487 / PLOT OF LAND OFF THE A487 AT DINAS | 0 | 24 | 24 | 1.4 | 0 | 0 | 8 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| **Llanystumdwy (41)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 70 | 1364 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR BRYN HYFRYD, CHWILOG | 0 | 20 | 20 | 1 | 0 | 0 | 0 | 6 | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 71 | 1391 | GWYN UDP | TIR TU CEFN I / LAND TO THE REAR OF MADRYN, CHWILOG | 0 | 14 | 14 | 0.7 | 0 | 0 | 0 | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 72 | 1392 | GWYN UDP | TIR GER / LAND AT STAD TY'N RHOS, CHWILOG | 0 | 21 | 21 | 1.2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | 7 | 0 | 7 | 0 | L | GF | NO |
| **Nefyn (42)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 73 | 283 | C10D/0358/42/MG C07D/0117/42/AM | CAE / FIELD 3751, GROESFFORDD (BORTH WERN), EDERN | 0 | 11 | 11 | 0.47 | 2 | 3 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 74 | 285 | C07D/0699/42/LL | YSTAD BRO GWYLWYR ESTATE | 0 | 35 | 1 | 0.25 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 75 | 286 | C01D/0164/42/LL - 2/22/102A-Z | YSTAD HOLBORN ESTATE | 0 | 68 | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 76 | 1398 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR STAD HOLBORN ESTATE | 0 | 35 | 35 | 1.2 | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 | 0 | 0 | 15 | 0 | L | GF | NO |
| 78 | 2018 | C07D/0325/42/MG C06D/0025/42/AM C13/0121/42/LL | RHAN O CAEAU / PART OF FIELDS 1220_1413, LON ISAF, MORFA NEFYN | 1 | 10 | 4 | 0.06 | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 79 | 2021 | C04D/0106/42/LL | SAFLE YN NHHEFN / LAND AT THE REAR OF TY CERRIG, STRYD FFYNNON | 1 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | C | GF | NO |
| 80 | 2495 | C04D/0722/42/LL | CAPEL SEION, STRYD Y PLAS | 0 | 7 | 7 | 0 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| 137 | 3832 | C12/1372/42/LL | NEFYN ALLOTMENTS, STRYD FAWR | 0 | 10 | 10 | 1.9 | 0 | 0 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N | BF | NO |
| **Penrhyndeudraeth (08)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 81 | 1405 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR CANOL CAE | 0 | 39 | 39 | 1 | 0 | 0 | 0 | 6 | 7 | 7 | 0 | 19 | 0 | L | GF | NO |
| 130 | 3666 | C10M/0101/08/AM | TIR GER / LAND NEAR PEN Y BRYN | 0 | 8 | 8 | 0.43 | 0 | 4 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| 82 | 2212 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR MAES PARCIO | 0 | 27 | 27 | 1.1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 27 | 0 | L | BF | C2 |

| RHIF<br>NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI<br>LPA REF NO | CYFEIRIAD<br>ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf<br>Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau<br>Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol<br>Units Rmng | He sydd ar ol<br>Ha Rmng | W/D<br>U/C | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS<br>STATUS | BF<br>GF | FLOOD<br>ZONE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pentir (25) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 83 | 178 | 3/25/195AB | BREWERY FIELD - ( COED Y MAES ), PENRHOSGARNEDD | 0 | 20 | 2 | 0.1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | L | GF | NO |
| 84 | 179 | C06A/0663/25/LL - 3/25/206CDF | TIR GER / LAND AT Y GARNEDD, PENRHOSGARNEDD | 0 | 5 | 1 | 0.1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 86 | 1361 - 3944 | GWYN UDP - C121347/25/LL | TIR TU CEFN I / LAND TO THE REAR OF FFORDD CYNAN, PENRHOSGARNEDD | 0 | 245 | 245 | 10.55 | 0 | 34 | 34 | 34 | 34 | 34 | 0 | 75 | 0 | L | GF | NO |
| Porthmadog (44) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 87 | 364 | 2/24/91A-M | YSTAD TU HWNT I'R BWLCH ESTATE ( AWEL Y GRUG ) | 0 | 21 | 1 | 0.1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 88 | 1640 | C04D/0041/44/LL | AWEL Y GRUG | 0 | 10 | 1 | 0.1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 89 | 1969 | C07D/0707/44/LL - C06D/0160/44/LL | SNOWDON MILL, HEOL YR WYDDFA | 0 | 24 | 24 | 0 | 24 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | C1 |
| 131 | 3595 | C11/0755/44/AM | GARDEN CRAFT, STRYD FAWR / HIGH STREET, TREMADOG | 0 | 9 | 9 | 0.23 | 0 | 0 | 5 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | C1 |
| 132 | 3654 | C11/0871/44/AM | COMMERCIAL AND NEWELLS BAKERIES, LON BOPTY | 0 | 7 | 7 | 0.08 | 0 | 0 | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| 91 | 2334 | C05D/0444/44/AM - C11/0862/44/AM | TIR GER / LAND NEAR MAES CHWARAE, MORFA BYCHAN | 0 | 9 | 9 | 0.38 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 92 | 2518 | C05D/0645/44/LL | CAPEL GARTH, STRYD Y BANC | 0 | 8 | 8 | 0.06 | 0 | 0 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| Pwllheli (45) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 93 | 387 | C11/0854/45/LL - C06D/0447/45/LL | YSTAD INNES ESTATE, LON GOLFF | 1 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | C | GF | C2 |
| 94 | 1400 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR CAE DEINIO | 0 | 16 | 16 | 1 | 0 | 0 | 0 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 95 | 2016 | C06D/0376/45/LL - C12/1395/45/LL | SAFLE PAFILIWN, MARIAN Y MOR | 0 | 25 | 25 | 0.4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | 7 | 0 | 11 | 0 | L | BF | NO |
| 96 | 2213 | GWYN UDP | TIR GER GAREJ / LAND NEAR GLANDON GARAGE | 0 | 24 | 24 | 1 | 0 | 0 | 0 | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 98 | 2365 | C08D/0351/45/LL | CHURCH HALL, LLEINIAU | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | C | BF | NO |
| 99 | 2429 | C11/0378/45/LL - C05D/0417/45/AM | TIR GER / LAND NEAR HEOL HAMDDEN | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | C | BF | C1 |
| 100 | 2597 | C09D/0195/45/LL | ADEILADAU MADOG BUILDINGS, LON DYWOD | 0 | 5 | 5 | 0.02 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | L | BF | C1 |
| Tudweiliog (46) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 101 | 361 | C08D/0368/46/LL - 2/26/57A-J C12/1364/46/MG | CAER ODYN (YSTAD Y LION ESTATE) | 0 | 11 | 3 | 0.04 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| Tywyn (09) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| RHIF<br>NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI<br>LPA REF NO | CYFEIRIAD<br>ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf<br>Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau<br>Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol<br>Units Rmng | He sydd ar ol<br>Ha Rmng | W/D<br>U/C | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS<br>STATUS | BF<br>GF | FLOOD<br>ZONE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 103 | 667 | 5/79/134 | BRYN GARREG LLWYD (GARREG LWYD) | 0 | 23 | 14 | 0.83 | 0 | 1 | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 | 9 | 0 | L | GF | NO |
| 104 | 669 | C02M/0182/09/LL C00M/0208/09/LL | TIR GER / LAND NEAR CORBETT AVENUE | 0 | 10 | 4 | 0.26 | 0 | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 105 | 1497 | C03M/0080/09/LL | GLANMOR HOTEL, MARINE PARADE | 0 | 12 | 12 | 0 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| 106 | 2142 | C06M/0069/09/LL | TIR GER / LAND NEAR GLAN Y MOR, MARINE PARADE (SWN Y TONNAU) | 1 | 33 | 23 | 0.62 | 2 | 2 | 4 | 5 | 4 | 0 | 0 | 6 | 0 | L | GF | NO |
| 139 | 3790 | C13/0102/09/LL | TIR Y FACHNAD, SANDILANDS ROAD | 0 | 18 | 18 | 0.32 | 0 | 0 | 0 | 6 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | N | BF | C1 |
| Waunfawr (26) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 108 | 1378 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR CAEATHRO BACH, CAEATHRO | 0 | 23 | 23 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 6 | 0 | 11 | 0 | L | GF | NO |
| 110 | 1962 | C06A/0058/26/LL | CAPEL BETHEL | 0 | 5 | 3 | 0.09 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |

| RHIF NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI LPA REF NO | CYFEIRIAD ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol Units Rmng | He sydd ar ol Ha Rmng | W/D U/C | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS STATUS | BF GF | FLOOD ZONE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Felinheli (20) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 111 | 1368 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR TYDDYN PERTHI | 0 | 16 | 16 | 1 | 0 | 0 | 0 | 5 | 5 | 6 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 112 | 1428 | C05A/0750/20/LL - C02A/0568/20/LL | HARBWR FELINHELI HARBOUR | 0 | 22 | 3 | 0.2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | L | GF | C1 |
| 113 | 1730 | C05A/0152/20/LL | GWESTY PLAS DINORWIC HOTEL | 0 | 8 | 8 | 0.2 | 0 | 2 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | C1 |
| 114 | 2060 | C06A/0752/20/LL | BODARWY | 0 | 18 | 18 | 0.12 | 0 | 0 | 6 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| 116 | 2203 | C12/0144/20/LL | GER / NEAR DRWS Y COED | 38 | 54 | 13 | 0.14 | 8 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 117 | 2517 | C09A/0424/20/LL | LLAIN O DIR DROS FFORDD I / PLOT OF LAND NEAR TY HANNER FFORDD | 0 | 7 | 7 | 0.26 | 0 | 0 | 3 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| **Safleoedd Sector Cyhoeddus / Public Sector Sites** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Bangor (11) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 118 | 1362 | GWYN UDP | EITHINOG | 0 | 39 | 39 | 5 | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 | 19 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| Caernarfon (14) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 119 | 1590 | GWYN UDP | FORMER LOWER SCHOOL, SYR HUW OWEN | 0 | 10 | 10 | 0.5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | L | GF | NO |
| 120 | 1373 | GWYN UDP | LAND NEAR FRONDEG, MAESINCLA | 0 | 29 | 29 | 1 | 0 | 0 | 0 | 5 | 10 | 0 | 0 | 14 | 0 | L | GF | NO |
| Llandwrog (17) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 121 | 2209 | GWYN UDP | TIR GER YR YSGOL / LAND NEAR THE SCHOOL, GROESLON | 0 | 5 | 5 | 0.2 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| Ffestiniog (03) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 122 | 2207 | GWYN UDP | TIR GER / LAND NEAR MAES Y PLAS, BLAENAU FFESTINIOG | 0 | 18 | 18 | 1 | 0 | 0 | 0 | 6 | 6 | 0 | 0 | 6 | 0 | L | GF | NO |
| Pwllheli (45) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 123 | 1399 | GWYN UDP | TIR GER CAE HOCI / LAND NEAR HOCKEY FIELD | 0 | 14 | 14 | 0.5 | 0 | 0 | 0 | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |
| 124 | 1402 | GWYN UDP | SAFLE YSBYTY / HOSPITAL SITE | 0 | 12 | 12 | 0.4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 12 | 0 | L | BF | NO |

| RHIF / NO | JHLAS | RHIF CYF ACLI / LPA REF NO | CYFEIRIAD / ADDRESS | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf / Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau / Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol / Units Rmng | He sydd ar ol / Ha Rmng | W/D / U/C | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2* | 3(i) | 3(ii) | STATWS / STATUS | BF / GF | FLOOD / ZONE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safleoedd Cymdeithas Tai – Cyhoeddus / Housing Association Sites – Public** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Pentir (25)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 85 | 2544 | C09A/0610/25/LL | CAE GARNEDD, PENRHOSGARNEDD | 0 | 41 | 41 | 0.56 | 41 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | BF | NO |
| **Pwllheli (45)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 138 | 3915 | C13/1209/45/LL | LÔN ABERERCH | 0 | 6 | 6 | 0.17 | 0 | 0 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N | BF | NO |
| **Tywyn (09)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 107 | 2450 | C08M/0079/09/AM C12/0974/09/LL | TIR GER / LAND NEAR PENDRE GARDENS, STRYD BROOKS STREET, | 10 | 17 | 7 | 0 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | L | GF | NO |

## CRYNODEB / SUMMARY

| | Unedau a Adeiladwyd Ers Astudiaeth Ddiwethaf / Units Built since last survey | Cyfanswm Unedau / Total Units Capacity | Unedau sydd ar ol / Units Rmng | He sydd ar ol / Ha Rmng | W/D / U/C | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2* | 3(i) | 3(ii) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014** | 111 | 2983 | 2430 | 95 | 181 | 121 | 196 | 391 | 383 | 263 | 0 | 880 | 15 |

## Atodiad 2 – Data Unedau wedi'i Cwblhau yn y Gorffennol

| Nifer y Tai a gwblhawyd ar: | | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Safleoedd Mawr** | **Safleoedd Bychan** | **Cyfanswm y tai a gwblhawyd** |
| 2003-05 (2 flynedd) | 285 | 217 | **502** |
| 2005-07 (2 flynedd) | 114 | 225 | **339** |
| 2007-08 | 131 | 119 | **250** |
| 2008-09 | 57 | 130 | **187** |
| 2009-10 | 77 | 72 | **149** |
| 2010-11 | 96 | 66 | **162** |
| 2011-12 | 47 | 74 | **121** |
| 2012-13 | 92 | 79 | **171** |
| 2013-14 | 111 | 65 | **176** |

## Atodiad 3 – Data Cyflenwad Tir Blaenorol

| **Blwyddyn** | **Cyflenwad 5 mlynedd – Nifer o Gartrefi (Categorïau NCT 1)** | | | **Y Cyflenwad – mewn blynyddoedd** | **Y Cyflenwad ymhellach na 5 mlynedd - Nifer y cartrefi** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **2*** | | **3i** | **3ii** |
| **2010** | 5 | 1412 | 0 | 5.13 | 1224 | 11 |
| **2011** | 10 | 1629 | 0 | 5.0 | 943 | 11 |
| **2012** | 83 | 1640 | 0 | 4.8 | 866 | 11 |
| **2013** | 73 | 1584 | 0 | 4.5 | 838 | 11 |
| **2014** | 121 | 1233 | 0 | 3.7 | 880 | 15 |

# Atodiad 4 – Argymhelliad yr Arolygydd

# Adroddiad ar gyd-astudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai

# Report on Joint Housing Land Availability Study

**gan P J Davies BSc (Hons) MA MRTPI**

**Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru**

**by P J Davies BSc (Hons) MA MRTPI**

**an Inspector appointed by the Welsh Ministers**

**Dyddiad: 27/05/20154**

**Date: 27/05/2014**

**Cyfeirnod: JHLAS/143/Q6810/516079**
**Awdurdod Cynllunio Lleol: Cyngor Gwynedd**

- Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â Chydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Cyngor Gwynedd 2014 (JHLAS).
- Amlinellir y materion sy'n destun anghytundeb yn Natganiad Tir Cyffredin (DTC) y JHLAS a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2015.

## Argymhelliad

1. Y dylid pennu ffigur cyflenwad tir JHLAS 2013 ar gyfer ardal Cyngor Gwynedd fel 3.6 mlynedd.

## Cyd-destun yr Argymhelliad

2. Mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i sicrhau bod digon o dir ar gael mewn gwirionedd, neu y bydd digon o dir ar gael, i ddarparu tir ar gyfer tai am 5 mlynedd[1]. Diben paratoi JHLAS yw:

   - Monitro'r ddarpariaeth ar gyfer tai'r farchnad agored a thai fforddiadwy;
   - Darparu datganiad y cytunwyd arno ynghylch argaeledd tir preswyl at ddibenion cynllunio a rheoli datblygiadau; a
   - Nodi'r angen i weithredu mewn sefyllfaoedd lle gwelir bod y cyflenwad yn annigonol.

3. Sgôp yr adroddiad hwn yw argymell gwerth cyflenwad tir ar gyfer tai sy'n

[1] Paragraff 9.2.3 PCC Argraffiad 7

addas i ardal Cyngor Gwynedd, yn sgil y materion sy'n destun anghytundeb wrth gyfrifo ffigwr o'r fath a'r dystiolaeth sydd ar gael. Mae'r Datganiad Tir Cyffredin wedi ei baratoi yn unol â NCT 1 'Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai' 2006. Mae NCT 1 diwygiedig wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar, fodd bynnag mae'n ymwneud a phroses JHLAS 2015.

**Prif Faterion**

4. Mae yna gytundeb o ran defnyddio'r dull gweddilliol ar gyfer cyfrifo'r cyflenwad tir ac mae'r Datganiad Tir Cyffredin yn cadarnhau mai'r angen blynyddol cyfartalog ar gyfer tai yw 517 uned y flwyddyn. Y cyflenwad tir a gytunwyd arno yw 1,863 uned ac mae yna anghytundeb mewn perthynas â 52 uned ar draws 3 safle. Y prif fater felly yw os, ar ddyddiad sylfaen yr astudiaeth, y dylai pob un o'r unedau sydd yn destun anghytundeb gyfrannu ai peidio tuag at y cyflenwad o dir ar gyfer tai.

**Rhesymau**

5. <u>Neuadd Deiniol / Wayside, Ffordd Caergybi, Bangor (24 uned yn destun anghytundeb):</u> Fe wnaeth yr ACLl ddarparu Tystysgrif Cyfreithlondeb yn 2011 er mwyn cadarnhau fod caniatâd cynllunio presennol wedi ei ddiogelu ar y safle. Fodd bynnag mae'r safle wedi bod o fewn y cyflenwad tir am dros 5 mlynedd. Nid oes yna gadarnhad diweddar o unrhyw fwriad gan ddatblygwr ar gyfer y safle, er bod yr ACLl yn cyfeirio at safle arall ble mae'r un perchennog wedi nodi eu bod yn gobeithio datblygu tua diwedd cyfnod yr astudiaeth. Nid wyf yn ystyried fod hyn yn esboniad digonol o ran pam y dylai'r safle hwn aros o fewn y cyflenwad tir a dylai'r 24 uned sydd yn destun anghytundeb gael eu diystyru felly ar yr adeg hon.

6. <u>Tir tu cefn i Ffordd Cynan, Penrhosgarnedd (20 uned yn destun anghytundeb):</u> Mae'r HBF yn ystyried y dylai'r gyfradd adeiladu gael ei ostwng o 34 i 30 uned y flwyddyn, gan olygu 20 uned ychwanegol yng Nghategori 3i. Nid oes unrhyw dystiolaeth o'm blaen sydd yn awgrymu na ellir cwrdd â chyfradd adeiladu rhagamcaniol yr ACLl o 34 uned y flwyddyn ac mae'r wybodaeth ddiweddaraf gan Swyddog Monitro'r Cyngor yn nodi fod yna weithgaredd sylweddol ar y safle. Ni welaf felly unrhyw reswm dros eithrio unrhyw rai o'r unedau a ragwelir gan yr ACLl o'r cyflenwad tir a dylai'r 20 uned hyn sydd yn destun anghytundeb gael eu cyfrif tuag at y ffigwr cyflenwad tir 5 mlynedd.

7. <u>Gray Garage, Lôn Newydd, Bethesda (8 uned yn destun anghytundeb):</u> Mae'r safle wedi bod yn y cyflenwad ers dros 5 mlynedd. Mae'r ACLl wedi cadarnhau fod caniatâd wedi ei adnewyddu'n ddiweddar ar y safle a bod y

cais diweddaraf hwn yn nodi ymglymiad Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Fe ystyriaf fod hyn yn nodi bwriad i ddatblygu o fewn cyfnod yr astudiaeth ynghyd a newid mewn amgylchiadau sydd yn darparu esboniad digonol o ran pam y dylai'r unedau hyn barhau yn y cyflenwad tir ar yr adeg hon. Felly, rwyf o'r farn y dylai'r 8 uned sydd yn destun anghytundeb gael eu cyfrif tuag at y ffigwr cyflenwad tir 5 mlynedd.

**Casgliad**

8. Am y rhesymau uchod, fe ddof i'r casgliad y dylai 28 uned gael eu hychwanegu i'r cyflenwad tir y cytunwyd arno, sef 1,863 a daw hyn a chyfanswm y cyflenwad tir i 1,891 uned.

9. Wrth ddefnyddio'r dull gweddilliol o gyfrifo, casglaf mai 3.6 mlynedd yw'r cyflenwad tir ar gyfer tai yn ardal gynllunio Cyngor Gwynedd ar 1 Ebrill 2014.

*P J Davies*

**Arolygydd**